HSE

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Adroddiad Cyhoeddus ar Asesu Cynllun Cyffredinol Cynlluniau Adweithyddion Niwclear Newydd

Y Diweddaraf am y Broses o Gynnwys y Cyhoedd ar gyfer Cam 3 o'r Broses Asesu Cynllun Cyffredinol

Tachwedd 2009

Cynnwys

Crynodeb gweithredol *3*

Cyflwyniad *3*

Cefndir *4*

Y diweddaraf am y Broses o Gynnwys y Cyhoedd *5*
- Gwahodd sylwadau *5*
- Gwefan adweithyddion newydd *5*
- Cyhoeddi gwybodaeth *6*
- Ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid *6*

Gwerthuso *6*
- Adolygiadau mewnol ac allanol *7*
- Ymchwil y farchnad *7*
- Monitro ac adrodd parhaus *7*

Edrych ymlaen *7*
- Rheoli diwedd y broses o gynnwys y cyhoedd yn y Broses Asesu Cynllun Cyffredinol *7*
- Ymgynghoriad Asiantaeth yr Amgylchedd *8*
- Gweithgarwch parhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid *8*
- Cerrig milltir *8*

Cysylltu *9*

Atodiad 1: Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod proses sylwadau'r cyhoedd *10*

Atodiad 2: Talfyriadau a diffiniadau *12*

Talfyriadau *12*

Diffiniadau *12*

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y 'Broses o Gynnwys y Cyhoedd' (PIP) gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y broses o Asesu Cynllun Cyffredinol (GDA) dau gynllun adweithydd niwclear: EPR gan EDF/AREVA ac AP1000 gan Westinghouse. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r ffordd y bydd HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd (y rheoleiddwyr niwclear) yn rheoli'r broses o gynnwys y cyhoedd yn ystod gweddill y broses GDA.

Fel rheoleiddwyr niwclear, rydym yn cydnabod pwysigrwydd magu hyder y cyhoedd yn ein gallu i ddiogelu pobl a chymdeithas rhag peryglon gorsafoedd ynni niwclear newydd drwy sicrhau safonau uchel o ran diogelwch personol, diogelwch eiddo a diogelwch amgylcheddol. Rydym yn cydnabod hefyd fod gweithio mewn ffordd agored a thryloyw yn ffordd dda o helpu i fagu'r hyder hwnnw.

Cynlluniwyd y broses GDA i fod yn agored a thryloyw, a gwnaed penderfyniadau'n gynnar i annog y partïon a oedd yn gwneud cais i gyhoeddi eu cyflwyniadau o ran diogelwch a'r amgylchedd ac i wahodd sylwadau gan y cyhoedd ar y cyflwyniadau hynny. Cyhoeddir crynodebau o'r sylwadau a gafwyd mewn adroddiadau ar y broses o gynnwys y cyhoedd ar ddiwedd pob cam o'r broses GDA.

Ers cyhoeddi ein Hadroddiad Cynnwys y Cyhoedd ar Gam 2 o'r broses GDA ym mis Mawrth 2008, mae cyfanswm o 45 o sylwadau wedi dod i law; 26 wedi'u cyfeirio at y partïon sy'n gwneud cais a 19 wedi'u cyfeirio at y Gyfarwyddiaeth Niwclear (ND). O'r rhain, roedd 32 yn ymwneud â'r cynlluniau a aseswyd, roedd tri yn ymwneud â'r broses GDA yn fwy cyffredinol, ac roedd deg y tu allan i gwmpas y GDA.

Yn ogystal, rydym wedi diwygio'r wefan adweithyddion newydd ar y cyd er mwyn ei gwneud yn haws ei defnyddio. Mae tua 5000 o bobl yn mynd i'r wefan bob mis ar hyn o bryd. Rydym yn defnyddio'r wefan yn helaeth i gyhoeddi gwybodaeth am y broses GDA. Rydym hefyd yn parhau i gyhoeddi e-fwletinau 'adweithyddion newydd' i hysbysu tanysgrifwyr o unrhyw ddatblygiadau newydd.

Yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth gyffredinol a'n canllawiau GDA a'n hadroddiadau asesu technegol, rydym wedi dechrau cyhoeddi amrywiaeth o ddogfennau eraill, gan gynnwys adroddiadau chwarterol sy'n crynhoi ein cynnydd ac yn amlygu'r heriau allweddol a wynebwn wrth fynd ymlaen, a'r materion rheoleiddio yr ydym wedi'u codi mewn perthynas â phob un o'r cynlluniau yr ydym yn eu hasesu.

Rydym ar gael i siarad mewn digwyddiadau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac rydym wedi trefnu seminarau ar gyfer rhanddeiliaid allweddol. Yn ystod Cam 3, roedd hyn yn cynnwys trefnu dau ddigwyddiad ar gyfer sefydliadau anllywodraethol (NGOs) a dau ar gyfer darpar weithredwyr.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad cyhoeddus hwn yn nodi casgliadau'r broses o gynnwys y cyhoedd a gynhaliwyd ar ran HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd (y rheoleiddwyr niwclear) yn ystod Cam 3 o'r broses GDA ar gyfer cynlluniau adweithyddion niwclear newydd. Mae'n egluro sut y deilliodd y broses o gynnwys y cyhoedd o'n bwriad i sicrhau y byddai GDA yn agored ac yn dryloyw, yn disgrifio elfennau allweddol y broses o gynnwys y cyhoedd, yn amlinellu canlyniadau'r broses yn ystod Cam 3 o'r broses GDA, ac yn nodi sut y caiff y broses o gynnwys y cyhoedd ei rheoli yn ystod Cam 4 o'r broses asesu.

Cefndir

Fel rhan o Adolygiad Ynni'r llywodraeth yn 2006*, nododd y rheoleiddwyr niwclear gynigion ar gyfer 'rhagdrwyddedu' cynlluniau gorsafoedd ynni niwclear. Cynlluniwyd y broses, sef y broses Asesu Cynllun Cyffredinol (GDA) fel y'i gelwid gennym, i alluogi'r rheoleiddwyr niwclear i asesu effeithiau cynlluniau adweithyddion newydd o ran diogelwch a'r amgylchedd yn gyffredinol, h.y. cyn i gais gael ei gyflwyno i adeiladu cynllun gorsaf ynni niwclear penodol mewn lleoliad penodol.

Mae HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymrwymedig i weithio mewn ffordd agored a thryloyw. Mae hyn yn helpu i ddangos ein bod yn annibynnol ar y llywodraeth a'r diwydiant niwclear, ac mae'n helpu i sicrhau'r cyhoedd y caiff goblygiadau'r cynlluniau o ran diogelwch a'r amgylchedd eu hystyried yn briodol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gawn i helpu i lywio'r penderfyniadau a wnawn. Fodd bynnag, ni fel rheoleiddwyr sy'n llwyr gyfrifol am y penderfyniadau hynny.

Roedd y cynnig gwreiddiol gan y rheoleiddwyr i'r llywodraeth yn cynnwys cynnig y dylai unrhyw ymgeisydd ar gyfer GDA gyhoeddi gwybodaeth am ei gynnig, a'r achos o ran diogelwch a'r amgylchedd, er mwyn sicrhau y gallai unrhyw barti â diddordeb gynnig sylwadau. Mae hyn yn elfen allweddol o'r broses o gynnwys y cyhoedd ar gyfer GDA.

Bu'r broses hon ar waith ers dechrau GDA, ac mae'r wybodaeth sydd wedi dod i law hyd yma wedi helpu i lywio ein hasesiad. Yn ogystal, rydym yn cael gohebiaeth barhaus yn uniongyrchol drwy negeseuon e-bost a llythyrau, a ddefnyddir hefyd i lywio ein hasesiad. Pan na fydd yr ohebiaeth yn ymwneud â'n gwaith ar GDA, caiff ei throsglwyddo i'r awdurdod perthnasol.

Mae proses GDA HSE yn seiliedig ar asesiad mewn pedwar cam. Ar ddiwedd pob cam, cyhoeddir adroddiadau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith asesu technegol manwl a wneir gan ein haseswyr niwclear ac sy'n amlygu'r materion technegol a godwyd hyd yma. Nid yw HSE yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol fel rhan o'r broses GDA, ond yn hytrach mae'n gwahodd sylwadau ar yr adroddiadau asesu a gyhoeddodd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ar ddiwedd Cam 3. Caiff gwybodaeth berthnasol ei defnyddio i lywio adroddiadau Cam 4 GDA HSE, a gaiff eu cyhoeddi ar ddiwedd GDA.

Mae proses GDA Asiantaeth yr Amgylchedd yn seiliedig ar ddau gam, sy'n cynnwys asesiad rhagarweiniol ac asesiad manwl. Ar ôl hyn, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus, sy'n adlewyrchu ei pholisi arferol. Caiff unrhyw sylwadau sy'n dod i law fel rhan o'r broses o gynnwys y cyhoedd, ond ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad, eu hystyried gan Asiantaeth yr Amgylchedd fel rhan o unrhyw broses awdurdodi safle, os nad yw'n ymarferol eu hystyried yn ystod GDA.

Mae'r rheoleiddwyr niwclear hefyd wedi creu tudalennau gwe adweithyddion niwclear newydd ar y cyd ar gyfer y broses GDA. Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys dolenni i wefannau pob parti sy'n gwneud cais (RP) - y sefydliadau sydd wedi gofyn i ni asesu eu cynlluniau ar gyfer adweithyddion gan ddefnyddio'r broses GDA. Defnyddir y wefan yn helaeth i gyhoeddi gwybodaeth am y broses GDA, gan gynnwys ein hadroddiadau asesu technegol, canllawiau a diweddariadau rheolaidd.

* http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/publications/energy_rev_06/energy_rev_06.aspx

Y diweddaraf am y Broses o Gynnwys y Cyhoedd

O dan y broses o gynnwys y cyhoedd, mae'r partïon sy'n gwneud cais wedi caniatáu i'r cyhoedd weld eu hadroddiadau ar ddiogelwch a'r amgylchedd, ac eithrio gwybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol a gwybodaeth niwclear sensitif. Mae aelodau'r cyhoedd hefyd wedi cael y cyfle i roi sylwadau ar y wybodaeth am y cynllun i'r parti perthnasol. Ymrwymodd y partïon sy'n gwneud cais i ymateb i bob cwestiwn perthnasol.

Rhoddir ystyriaeth briodol i'r materion a godwyd, ac ymatebion y partïon sy'n gwneud cais iddynt, gan y rheoleiddwyr niwclear, a fydd yn cyhoeddi eu barn ar y prif faterion a godwyd (ac yr ymatebwyd iddynt) yn ystod y broses o gynnwys y cyhoedd ar gamau allweddol y broses GDA.

Gwahodd sylwadau

Cafwyd cyfanswm o 45 o sylwadau yn ystod asesiad Cam 3 HSE; 26 wedi'u cyfeirio at y partïon sy'n gwneud cais a 19 wedi'u cyfeirio at Swyddfa Rhaglen ar y Cyd (JPO) GDA drwy e-bost. O'r sylwadau a gafwyd, roedd 32 yn ymwneud â'r cynlluniau a oedd yn cael eu hasesu, roedd tri yn ymwneud â'r broses GDA yn fwy cyffredinol, ac roedd deg y tu allan i gwmpas GDA. Mae pob sylw wedi'i drosglwyddo i'r RP priodol neu'r awdurdod perthnasol ac rydym wedi cael ymatebion neu'n aros amdanynt. Mae pob sylw perthnasol, ynghyd â'r ymatebion, wedi'u hadolygu gan y rheoleiddwyr niwclear. Crynhoir y prif faterion yr ymatebodd y rheoleiddwyr niwclear iddynt yn Atodiad 1.

Ymhlith y materion a godwyd ynghylch AP1000 Westinghouse roedd: y dull diffodd tyrbin gorgyflym arfaethedig; diogelwch rhag ymosodiad gan daflegrau a gwrthdrawiad awyrennau mewn perthynas â'r strwythur atal; a'r angen i'r system trosi ager a phŵer gael ei phrofi'n hydrostatig.

Ymhlith y materion a godwyd ynghylch EPR EDF/AREVA roedd: y mathau o gasgen gweddillion tanwydd arfaethedig; cynnwys a mesur lefelau cyfyngol peryglon allanol, e.e. terfynau daeargryn, a'r cyfiawnhad dros y symiau a nodwyd; y tymereddau toddi tanwydd a nodwyd; a gwahanu gwastraff lefel ganolraddol a chynlluniau i'w amgáu, ei storio a'i waredu.

Ymatebodd EDF/AREVA a Westinghouse i'r holl sylwadau perthnasol ac rydym yn ystyried y rhain, lle y bônt yn briodol, yn ein hasesiad.

Diwygiodd Westinghouse ei wefan GDA a chyhoeddodd wybodaeth wedi'i diweddaru am ddiogelwch a'r amgylchedd ym mis Awst 2009, a chyhoeddodd EDV/AREVA y wybodaeth honno ym mis Hydref 2009. Felly, roedd y sylwadau a gafwyd yn seiliedig yn bennaf ar y cyflwyniadau blaenorol ynghylch diogelwch a'r amgylchedd.

Gwefan adweithyddion newydd

Y brif ffordd o gyhoeddi gwybodaeth am y broses GDA yw drwy'r Rhyngrwyd. Gyda'i gilydd, mae'r rheoleiddwyr niwclear wedi datblygu gwefan adweithyddion newydd benodedig, sy'n cynnwys gwybodaeth am y broses GDA. Cafodd y wefan ei hailgynllunio yn ystod 2009 er mwyn ei gwneud yn haws ei defnyddio.

Ar hyn o bryd, mae tua 5000 o bobl yn mynd i'r wefan bob mis, ac rydym yn disgwyl i'r nifer godi wrth i'r safleoedd posibl ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd ddod yn gliriach.

Mae'r wefan adweithyddion newydd yn: www.hse.gov.uk/newreactors.

Cyhoeddi gwybodaeth

Cynlluniwyd GDA i fod yn broses agored a thryloyw, ac mae cyhoeddi gwybodaeth berthnasol ac amserol yn allweddol i hyn. Yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth gyffredinol am y broses GDA, ein canllawiau GDA, a'n hadroddiadau asesu technegol (a'n hadroddiadau cryno sydd wedi'u hanelu at gynulleidfa fwy cyffredinol), rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o ddogfennau eraill, er enghraifft cyflwyniadau a'r cwestiynau a godwyd (ynghyd â'r atebion) mewn digwyddiadau i randdeiliaid.

Adroddiadau chwarterol

Gwnaethom ddechrau cyhoeddi adroddiadau chwarterol ar y broses GDA ar 7 Mai 2009. Mae'r adroddiadau hyn, sy'n crynhoi ein cynnydd ac yn amlygu'r heriau allweddol a wynebwn wrth fynd ymlaen, yn rhan o'n hymgais i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'n rôl o ran asesu effeithiau cynlluniau gorsafoedd ynni niwclear newydd o ran diogelwch a'r amgylchedd a'r cynnydd yr ydym yn ei wneud o gymharu â'n hamserlen ddangosol.

Mae'r adroddiadau ar gael yn: www.hse.gov.uk/newreactors/quarterly-updates.htm

Materion rheoleiddio

Fel rhan o'n gwaith i asesu'r cynlluniau gorsafoedd ynni niwclear sy'n rhan o GDA ar hyn o bryd, mae angen i ni ofyn am fwy o wybodaeth gan y cwmnïau cynllunio weithiau, neu ddweud wrthynt os ydym o'r farn ei bod yn bosibl nad yw nodwedd benodol o'r cynllun yn cyrraedd safonau rheoleiddio'r DU. Budd ein proses GDA yw ei bod yn ein galluogi i nodi'r problemau hyn ar gam cynnar o'r broses gynllunio lle y gellir eu datrys yn haws.

Mae gennym systemau ar waith i ofyn cwestiynau ac amlygu pryderon, sy'n cynnwys codi materion rheoleiddio (RI). Rydym yn codi materion rheoleiddio pan fydd pryderon gennym sy'n ddigon pwysig y gallent atal yr RP rhag cael canlyniad cadarnhaol ar ôl cwblhau'r broses GDA, pe nad ymdrinnid â hwy. Hyd yma, rydym wedi codi un mater rheoleiddio mewn perthynas â phob cynllun adweithydd ynghylch gwastraff ymbelydrol, yr ymdriniwyd â hwy bellach; ac un mater rheoleiddio mewn perthynas â systemau rheoli ac offeru EPR, y mae gwaith arno yn mynd rhagddo o hyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.hse.gov.uk/newreactors/regissues.htm.

e-fwletinau

Sefydlwyd y rhwydwaith e-fwletinau 'adweithyddion newydd' i alluogi pobl i danysgrifio i gael gwybodaeth am y broses GDA. Hyd yma, mae 3288 o bobl wedi tanysgrifio i gael e-fwletinau.

Ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid

Yn ogystal â siarad mewn digwyddiadau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, rydym hefyd wedi trefnu nifer o seminarau ar gyfer rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ar gyfer sefydliadau anllywodraethol a dau ar gyfer darpar weithredwyr. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys copïau o'r cyflwyniadau, ar gael ar y wefan adweithyddion newydd yn: www.hse.gov.uk/newreactors/events.htm. Rydym hefyd wedi mynd ati i ymgysylltu'n fwy â grwpiau rhanddeiliaid safleoedd.

Gwerthuso

Er mwyn asesu effeithiolrwydd ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym wedi rhoi nifer o fentrau ar waith i fonitro ac asesu ein heffeithiolrwydd a disgrifir y rhain isod.

Adolygiadau mewnol ac allanol

Fel rhan o'r trefniadau llywodraethu GDA ar gyfer GDA, rhoddodd HSE Fwrdd Adolygu Proses (PRB) annibynnol ar waith. Mae ei adolygiadau o'r broses GDA yn cynnwys asesu effeithiolrwydd y broses o gynnwys y cyhoedd. Hyd yma, mae HSE wedi comisiynu dau adolygiad gan y PRB ac mae ei adroddiadau ar gael ar y wefan adweithyddion newydd, ynghyd ag ymatebion HSE i'r canfyddiadau.

Yn ogystal, rydym yn cynnal archwiliadau mewnol ar ôl pob cam o'r prosesau GDA, gan gynnwys ym maes ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf a gwmpasodd waith ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Awst 2009 a gwnaeth ddau argymhelliad:

- gwella golwg gyffredinol y wefan GDA ar y cyd, yn enwedig y dudalen flaen, er mwyn dal sylw ar unwaith i annog pobl i archwilio'r wefan ymhellach;
- ymchwilio i system y we a sicrhau bod y chwilotwr yn galluogi defnyddwyr i ddod o hyd i wybodaeth ynghylch GDA neu adweithyddion newydd yn uniongyrchol, yn hytrach na thrwy amrywiaeth o ddolenni o ffynonellau eraill.

Rydym wrthi'n gweithio i ymdrin â'r argymhellion hyn.

Ymchwil y farchnad

Yn unol ar argymhelliad y PRB annibynnol, comisiynodd Asiantaeth yr Amgylchedd ymchwil i helpu i fesur dealltwriaeth, canfyddiadau a hyder y cyhoedd yn rolau rheoleiddwyr niwclear yn y broses o adeiladu adweithyddion niwclear newydd.

Cyflawnwyd gwaith ymchwil cychwynnol ym mis Mehefin 2009, a nododd lefelau isel o ymwybyddiaeth a diddordeb mewn ynni niwclear yn gyffredinol, a hefyd o ran rôl HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd fel rheoleiddwyr niwclear.

Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio ein strategaethau cyfathrebu.

Monitro ac adrodd parhaus

Drwy gydol y broses o gynnwys y cyhoedd ar gyfer GDA, byddwn yn parhau i fonitro'r sylwadau a wneir i'r partïon sy'n gwneud cais a'r ymatebion a roddir. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried y sylwadau a gawn yn uniongyrchol wrth ddatblygu ein hasesiad. Bydd HSE yn crynhoi'r sylwadau a geir yn ystod Cam 4, ynghyd ag unrhyw ymatebion, yn ei adroddiad ar y broses o gynnwys y cyhoedd ar gyfer Cam 4. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn crynhoi'r themâu allweddol sy'n deillio o'i hymgynghoriad yn ei hymateb ffurfiol.

Edrych ymlaen

Hwn fydd yr adroddiad olaf ar y broses o gynnwys y cyhoedd cyn diwedd GDA. Felly, rydym yn nodi isod y ffordd yr ydym yn bwriadu rheoli diwedd y broses o gynnwys y cyhoedd.

Rheoli diwedd y broses o gynnwys y cyhoedd yn y Broses Asesu Cynllun Cyffredinol

Un o elfennau allweddol y broses o gynnwys y cyhoedd ar gyfer GDA yw rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd gynnig sylwadau ar y wybodaeth gynllunio a ddarperir gan y partïon sy'n gwneud cais. Lle y bônt yn berthnasol, rydym yn defnyddio'r cwestiynau hyn a'r ymatebion a roddwyd gan y partïon sy'n gwneud cais i lywio ein hasesiad.

Yn ogystal, rydym yn cael gohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd yn barhaus. Rydym naill ai'n ymateb i'r ohebiaeth hon neu, lle nad yw'n ymwneud â'n gwaith ar GDA, rydym yn ei throsglwyddo i'r awdurdod perthnasol. Pan fydd sylwadau a wneir yn ymwneud â'n gwaith asesu, rydym yn eu defnyddio i lywio ein hasesiad.

Er mwyn cwblhau ei asesiad erbyn mis Mehefin 2011, bydd angen i HSE sicrhau ei fod yn cael yr holl wybodaeth y bydd yn seilio ei benderfyniadau arni mewn digon o amser i allu ystyried unrhyw sylwadau perthnasol wrth baratoi ei adroddiadau asesu Cam 4. Felly, ni fydd HSE yn gallu ystyried sylwadau ar gyflwyniadau diogelwch y partïon sy'n gwneud cais, nac ar adroddiadau Cam 3 HSE, sy'n dod i law ar ôl 31 Rhagfyr 2010. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, caiff unrhyw sylwadau sy'n dod i law fel rhan o'r broses o gynnwys y cyhoedd, ond ar ôl dyddiad cau ymgynghoriad Asiantaeth yr Amgylchedd, eu hystyried fel rhan o unrhyw broses awdurdodi safle, os nad yw'n ymarferol ymdrin â hwy yn ystod GDA.

Ymgynghoriad Asiantaeth yr Amgylchedd

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal ymgynghoriad yn 2010 ar ei chanfyddiadau o'i hasesiad o'r cynlluniau ar gyfer adweithyddion. Bydd yn ystyried y sylwadau a gafwyd a'r materion a godwyd er mwyn helpu i lywio ei phenderfyniadau ynghylch derbynioldeb y cynlluniau.

Bwriedir i'r ymgynghoriad hwn ar farn ragarweiniol Asiantaeth yr Amgylchedd ar dderbynioldeb y cynlluniau ddechrau yn ystod gwanwyn/haf 2010. Bydd yn cynnwys ymgynghoriad ar-lein.

Mae cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid drafft wedi'i ddatblygu ar gyfer yr ymgynghoriad. Gofynnir am adborth gan randdeiliaid ar hwn.

Gweithgarwch parhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid

Byddwn yn parhau i gyflawni gweithgarwch arall ymhlith rhanddeiliaid, yn unol â'n Strategaeth Rhanddeiliaid GDA ar y cyd, drwy gydol y broses GDA.

Rydym hefyd yn datblygu rhaglen cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer cymunedau lleol o amgylch safleoedd a enwebwyd er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch ein rolau a'r cyfleoedd i bobl gyfrannu.

Cerrig milltir

Mae'r tabl isod yn nodi dyddiadau allweddol yn y broses o gynnwys y cyhoedd.

Dyddiad	***Digwyddiad***
Rhagfyr 2009	Dechrau Cam 4 GDA
Canol 2010	Lansio ymgynghoriad Asiantaeth yr Amgylchedd
Awst 2010	Cyhoeddi cyflwyniadau Cam 4 y partïon sy'n gwneud cais
Hydref 2010	Ymgynghoriad Asiantaeth yr Amgylchedd yn dod i ben
Rhagfyr 2010	Diwedd proses sylwadau'r cyhoedd ar gyfer GDA
Mehefin 2011	Diwedd GDA

Cysylltu

Os bydd unrhyw sylwadau gennych ar yr adroddiad hwn, neu unrhyw un o adroddiadau Cam 3 GDA HSE a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, ysgrifennwch i'r JPO yn y cyfeiriad canlynol:

The Joint Programme Office
Nuclear Directorate 4N.G
Health and Safety Executive
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside L20 7HS

e-bost: new.reactor.build@hse.gsi.gov.uk

gwefan: www.hse.gov.uk

©ⓗ *Hawlfraint y Goron* Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, arnodi neu fasnachu.

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Tachwedd 2009. Dylid cydnabod mai'r ffynhonnell yw HSE.

Atodiad 1 Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod proses sylwadau'r cyhoedd

Materion a godwyd	Ymateb y rheoleiddwyr
Yr angen am byllau gweddillion tanwydd dyblyg i ddarparu mesurau diogelwch ychwanegol.	Caiff y broses o storio gweddillion tanwydd ei hasesu fel rhan o GDA. Bydd ein hasesiad, sy'n mynd rhagddo o hyd, yn ystyried amrywiaeth o faterion o ran diogelwch, gan gynnwys gollyngiadau posibl, heneiddio ac ymdrin â chasgenni. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau, yng nghanol 2011.
Cynlluniau sy'n cael eu hasesu o dan y broses GDA.	AP1000 Westinghouse ac EPR EDF/ AREVA.
Pryd y bydd y broses trwyddedu safle yn dechrau.	Unwaith y byddwn wedi cael cais am drwydded safle.
Mabwysiadu cyfraddau ymfflamychiad uchel a goblygiadau o ran storio.	Byddai angen cynllunio'r pwll tanwydd a systemau cysylltiedig er mwyn sicrhau is-gritigoldeb a chael gwared â gwres dadfeilio ar gyfer pob ymfflamychiad tanwydd arfaethedig.
Y defnydd o danwyddau â graddau cyfoethogi amrywiol, a goblygiadau gosod rhodiau tanwydd o fewn craidd yr adweithydd a phyllau tanwydd.	Byddai angen i nifer o fesurau diogelwch fod ar waith i sicrhau y cydymffurfid yn ofalus â phatrymau llwytho'r craidd. Câi'r mesurau eu gweithredu ar gamau gwahanol o'r broses llwytho tanwydd.
Derbyn cynlluniau adweithyddion ychwanegol ar gyfer GDA.	Nid ydym yn ystyried asesu cynlluniau adweithyddion ychwanegol o dan yr ymarfer GDA presennol.
Mae GDA yn ystyried y cylch tanwydd yn ei gyfanrwydd, e.e. storio gwastraff ar y safle mewn pyllau tanwydd ac mewn casgenni sych a'r angen am gyflenwad pŵer parhaus ar y safle y tu hwnt i oes yr adweithydd.	O ran rheoli yn y tymor hwy, mae sawl opsiwn ar gael i storio gweddillion tanwydd. Pa opsiwn bynnag a ddewisir, bydd angen iddo ystyried proses gyfoethogi'r elfennau gweddillion tanwydd a'u gwres gweddilliol. Ystyrir y broses o reoli gwastraff, yn ogystal â chyfanrwydd cyflenwadau pŵer wrth gefn, fel rhan o GDA.

Materion a godwyd	Ymateb y rheoleiddwyr
Ystyr cymeradwyaeth GDA o gynlluniau adweithyddion.	O dan GDA, nid yw rheoleiddwyr yn 'cymeradwyo' y cynlluniau yn ffurfiol, er bod angen iddynt eu bodloni eu hunain y gellid gweithredu'r cynlluniau yn ddiogel. Pe bai'r rheoleiddwyr yn fodlon ar y cynllun, byddent yn rhoi cadarnhad gan nodi eu bod yn fodlon i'r cynlluniau gael eu hadeiladu ar safleoedd yn y DU. Pe bai'r cadarnhad yn cael ei roi gydag eithriadau mewn rhai meysydd, h.y. gwaith ychwanegol yr oedd angen ei wneud, yna ymdrinnid â'r materion hyn yn ystod y camau trwyddedu ac adeiladu, yn unol ag arfer arferol ar gyfer y math hwn o brosiect.
Sut y caiff GDA ei ystyried wrth asesu cynlluniau ar gyfer trwyddedau safle.	Ar gyfer pob adweithydd newydd i'w adeiladu, byddai angen i'r gweithredwr wneud cais am drwydded safle niwclear a darparu adroddiad diogelwch ategol ar y safle penodol. Byddai seilio'r rhain ar y cynllun a archwiliwyd yn ystod GDA yn lleihau'r gwaith asesu ychwanegol y byddai angen i'r rheoleiddwyr ei gynnal.

Atodiad 2 Talfyriadau a diffiniadau

Talfyriadau

C&I Rheoli ac Offeru
DECC Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
GDA Asesu cynllun cyffredinol
HSE Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
ILW Gwastraff lefel ganolraddol
LLW Gwastraff lefel isel
RI Mater Rheoleiddio
RPV Llestr pwysedd yr adweithydd

Diffiniadau

Asesu Cynllun Cyffredinol (GDA): Y broses a ddefnyddir gan y rheoleiddwyr niwclear i gynnal asesiad o'r agweddau o ran diogelwch a'r amgylchedd ar gynllun gorsaf ynni niwclear newydd, cyn unrhyw gais ffurfiol i adeiladu gorsaf o'r fath mewn safle penodol.

Swyddfa Rhaglen ar y Cyd: Swyddfa ar y cyd a sefydlwyd gan HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ddarparu un pwynt cyswllt ar gyfer GDA.

Rheoleiddwyr Niwclear: HSE (yn cynnwys yr Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear a'r Swyddfa Diogelwch Niwclear Sifil), ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Y Broses o Gynnwys y Cyhoedd: Y broses a fabwysiadwyd gan y rheoleiddwyr niwclear a roddodd gyfle i aelodau'r cyhoedd weld y fersiwn cyhoeddus o'r Adroddiad ar Ddiogelwch Personol, Diogelwch Eiddo a'r Amgylchedd (SSER) a ddarparwyd gan y partïon sy'n gwneud cais a chynnig sylwadau arno.

Y parti sy'n gwneud cais: Y sefydliad/sefydliadau sy'n ceisio Asesiad Cynllun Cyffredinol o gynllun adweithydd ac sydd wedi llofnodi cytundebau ysgrifenedig â'r rheoleiddwyr.

Cam 3 GDA: Adolygiad o'r agweddau diogelwch ar gynllun adweithydd arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r lefel system ac o ddadleuon ategol y partïon sy'n gwneud cais. Y nod yw nodi materion pwysig a allai effeithio ar a gaiff y cynllun ei dderbyn, gan gynnwys y rhai a allai arwain at newidiadau mawr i'r cynllun neu'r achos diogelwch.

Cam 4 GDA: Yn rhoi asesiad manwl o'r achos diogelwch. Yn galluogi arolygwyr yr Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear i asesu a ellir cyfiawnhau'r honiadau a wneir gan y cynllunwyr gorsafoedd ynni niwclear ynghylch diogelwch eu cynllun a llunio barn o ran a ellir rhoi Cadarnhad Derbyn Cynllun.